Archwilio Pam

# Goleuni

Un o lyfrau Aled a Siân



*Archwilio Pam*

# Goleuni

Tania ap Siôn a Leslie J Francis
Darluniwyd gan Phillip Vernon

Bear Lands Publishing

## Aled a Siân

Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn archwilio'r mannau lle maen nhw'n byw a'r mannau y maen nhw'n mynd i ymweld â nhw. Maen nhw'n mwynhau chwarae 'Dw i'n gweld â'm llygad bach i' er mwyn eu helpu i ddod i adnabod y mannau hyn yn well. Yn y gyfres *Archwilio Pam*, mae Aled a Siân yn chwilfrydig ac eisiau gwybod pam fod rhai o'r pethau o'u cwmpas yn bwysig i'w ffrindiau Cristnogol, Iddewig a Mwslimaidd.

Mae'r gyfres yn cymryd arwyddocâd cymdeithasol crefydd o ddifrif, ac mae'n seiliedig ar ymchwil helaeth i sut mae plant yn dysgu amdanyn nhw eu hunain, am bobl eraill, ac am y byd maen nhw'n byw ynddo.

I ategu'r gyfres hon o lyfrau stori, mae amrywiaeth eang o adnoddau ar gyfer plant ac athrawon, y gellir eu llwytho i lawr am ddim, ac maen nhw ar gael ar **hwb.wales.gov.uk/Adnoddau** a **st-marys-centre.org.uk**

Mae'r llyfrau stori a'r gweithgareddau wedi'u hanelu at blant 5 - 7 mlwydd oed, ond mae'r adnoddau sy'n bosib eu llwytho i lawr yn gwneud y gyfres yn berthnasol i blant iau a phlant hŷn hefyd.

Cyhoeddwyd gan Bear Lands Publishing, Canolfan y Santes Fair, Llys Onnen, Abergwyngregyn, Gwynedd, LL33 0LD, Wales.

Hawlfraint © Tania ap Siôn a Leslie J Francis (testun), Phillip Vernon (darluniau).

Mae Tania ap Siôn, Leslie J Francis, a Phillip Vernon wedi mynnu eu hawl o dan Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, i gael eu nodi fel awduron y gwaith hwn.

Cyfieithwyd gan Nant Roberts.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei atgynhyrchu, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig, electrostatig, tâp magnetig, mecanyddol, ffotogopïo, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd llawn Bear Lands Publishing a deiliaid yr Hawlfraint.

Cyhoeddwyd gyntaf 2016.

Noddir gan Lywodraeth Cymru.


### Teitlau'r gyfres *Archwilio Pam* yw:



Bara
Croes
Goleuni
Menora
Fêl
Dŵr
Symbolau Ffydd




Mae Aled a Siân yn chwarae ‘Dw i’n gweld â’m llygad bach i’. Heddiw maen nhw’n chwilio am wahanol fathau o oleuni. Tybed sawl math gwahanol welan nhw, a ble.



Mae Aled a Siân yn agor y llenni, ac mae goleuni'r bore'n llenwi'r ystafell.




Yno, uwchben y gerddi, y tai a'r ceir, maen nhw'n gweld yr haul yn gwthio trwy'r cymylau. "Tybed ble gallwn ni edrych nesaf?" gofynnodd Aled.



Mae Aled a Siân yn dringo'r grisiau i'r atig, ac yno maen nhw'n gweld eu mam yn pacio dillad ar gyfer y siop elusen.




Yno, rhwng y gwe pry cop, a’r hen deganau, maen nhw’n gweld bwlb golau yn hongian o’r nenfwd. “Tybed ble gallwn ni edrych nesaf?” gofynnodd Siân.




Mae Aled a Siân yn mynd i chwilio yn yr ystafelloedd gwely ac yn edrych yn eu bocsys llawn teganau.



Yno, rhwng y gemau, y jig-sos a'r tedis, maen nhw'n dod o hyd i dortsh fach las. “Tybed ble gallwn ni edrych nesaf?” gofynnodd Aled.




Mae Aled a Siân yn chwarae pêl-droed yn y parc. Maen nhw’n clywed sŵn taran.



Yno, yn yr awyr dywyll uwchben, maen nhw'n gweld mellten lachar yn fflachio. "Tybed ble gallwn ni edrych nesaf?" gofynnodd Siân.




Er mwyn dianc rhag y glaw, mae Aled a Siân yn rhedeg i dŷ eu ffrindiau Nathan a Rachel.




Yno, mae mam Nathan a Rachel yn gosod dwy gannwyll ar gyfer y Shabbat, y dydd o orffwys. “Tybed pam mae goleuni mor bwysig ar gyfer y Shabbat?” gofynnodd Aled.



Wrth iddi nosi, mae mam Nathan a Rachel yn goleuo'r canhwyllau i groesawu'r Shabbat. Dyma'r dydd o orffwys.



Yno, ar y bwrdd, yn ymyl cwpanaid o win a bara, maen nhw'n gwylio fflamau'r canhwyllau'n crynu. “Tybed pam mae goleuni mor bwysig ar gyfer y Shabbat?” gofynnodd Siân.



Wrth i'r teulu a'r ffrindiau fwynhau bwyd arbennig, mae Nathan a Rachel yn dechrau egluro pam mae goleuni mor bwysig ar gyfer y Shabbat.



Mae Nathan a Rachel yn sôn wrth Aled a Siân am stori'r greadigaeth fel mae yn y Torah. Yno, mae'n dweud bod Duw wedi creu goleuni'n gyntaf.



Yna, creodd Duw yr awyr, y ddaear a’r môr. Creodd lawer o greaduriaid byw, planhigion a phobl hefyd.



Am chwe diwrnod fe fu Duw'n creu, ac roedd popeth a greodd Duw yn dda. Ar y seithfed diwrnod, fe orffwysodd Duw a gwneud y diwrnod hwnnw'n un arbennig – yn ddiwrnod sanctaidd.



Yna, fe roddodd Duw y Deg Gorchymyn i Moses ar Fynydd Sinai. Y pedwerydd gorchymyn yw cadw’r Shabbat, y seithfed dydd, yn sanctaidd.



“Chwe diwrnod yr wyt i weithio a gwneud dy holl waith, ond y mae’r seithfed dydd yn Saboth yr Arglwydd dy Dduw; na wna ddim gwaith y dydd hwnnw,” meddai’r Torah.



Yn ystod y Shabbat mae Nathan a Rachel yn aros, yn cofio, ac yn diolch i Dduw am y greadigaeth ac am eu hamser gyda'i gilydd fel teulu.



Mae Aled a Siân yn ymuno yn y caneuon, y storïau a'r sgwrs ar ôl y pryd bwyd. "Yfory, wrth iddi nosi," meddai Nathan a Rachel, "fe fyddwn ni'n goleuo cannwyll arall i ffarwelio â'r Shabbat!"



Cyn i Aled a Siân fynd i gysgu, maen nhw'n gwylio'r lleuad a'r sêr yn goleuo'r nos. "Nawr rydyn ni'n gwybod pam mae goleuni mor bwysig ar gyfer y Shabbat!" meddai Aled a Siân gyda'i gilydd.

Mae Aled a Siân yn chwarae 'Dw i'n gweld â'm llygad bach i', a heddiw maen nhw'n chwilio am wahanol fathau o 'oleuni'. Maen nhw'n dod o hyd i oleuni mewn pob math o leoedd o gwmpas ble maen nhw'n byw. Pan fydd Aled a Siân yn ymweld â'u ffrindiau, Nathan a Rachel, maen nhw'n dechrau gofyn cwestiwn pwysig – "Tybed pam mae goleuni mor bwysig ar gyfer y Shabbat?" Gyda help Nathan a Rachel, mae Aled a Siân yn dechrau dod o hyd i rai atebion.



Bear Lands Publishing